
“Siarad sydd ei angen i ni ei wneud a dysgaf y cyfan gennyt ti”

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfnodau Datblygiad Iaith a Lleferydd

www.llyw.cymru

| Oed | Gwrando a sylwi | Dealltwriaeth | Synau llefaru a siarad | Sgiliau Cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|
|  Hyd at 3 mis | • Troi tuag at synau cyfarwydd<br>• Cael ei ddychryn gan synau uchel | • Adnabod llais y rhieni<br>• Lleisiau cyfarwydd, cyfeillgar yn aml yn ei dawelu | • Crïo'n aml yn enwedig pan fo'n anhapus neu'n anghyfforddus<br>• Gwneud synau gyda'r llais e.e. Cŵian a gyrglan | • Syllu ar wynebau a chopïo symudiadau'r wyneb e.e. rhoi tafod allan<br>• Gwneud cyswllt llygaid â phobl am gyfnodau gweddol hir |
|  3 – 6 mis | • Gwylio'r wyneb pan fo rhywun yn siarad | • Yn cyffroi wrth glywed sŵn lleisiau'n agosáu | • Gwneud synau gyda'r llais er mwyn cael sylw<br>• Pan fo rhywun yn siarad â'r babi, mae'n ateb drwy greu synau<br>• Chwerthin wrth chwarae<br>• Parablu i'w hun | • Synhwyro emosiynau gwahanol yn llais y rhieni ac o bosib yn ymateb yn wahanol, e.e. gwenu, tawelu neu chwerthin<br>• Crïo mewn ffyrdd gwahanol i fynegi anghenion gwahanol |
|  6 – 12 mis | • Llwyddo i ddod o hyd i'r sawl sy'n siarad<br>• Canolbwyntio ar synau gwahanol e.e. ffôn, cloch y drws. | • Deall geiriau a ddefnyddir yn aml e.e. 'wedi gorffen' 'na' a 'ta-ta'<br>• Stopio ac edrych wrth iddo glywed ei enw<br>• Deall cyfarwyddiadau syml pan fo ystumiau a chyd-destun ynghlwm wrth y cyfarwyddiadau hynny | • Defnyddio synau llefaru (parablu) i gyfathrebu ag oedolion; yn gwneud synau tebyg i 'ba-ba' 'na-na' 'ga-ga'<br>• Yn stopio parablu wrth glywed llais oedolyn cyfarwydd<br>• Defnyddio ystumiau fel chwifio dwylo a phwyntio bys i'w helpu i gyfathrebu<br>• Dechrau defnyddio geiriau unigol pan yw oddeutu 12 mis e.e. 'Mamam' 'dada' | • Mwynhau hwiangerddi a chaneuon gyda symudiadau<br>• Ceisio copïo lleferydd a symudiadau gwefusau oedolion<br>• Cymryd ei dro mewn sgwrs (wrth barablu) |
|  12 – 15 mis | • Mwynhau cerddoriaeth a chanu<br>• Mwynhau teganau/gwrthrychau sy'n gwneud sŵn | • Deall geiriau unigol o fewn eu cyd-destun, e.e. Cwpan, llaeth, dadi<br>• Deall mwy o eiriau nag y mae'n gallu eu dweud<br>• Deall cyfarwyddiadau syml e.e.'cusan i mami' 'rho fe i dadi' 'stop' | • Dweud tua 10 gair unigol, er efallai nad yw'r rhain yn glir<br>• Ymestyn neu'n pwyntio at rywbeth sydd ei eisiau arno wrth wneud synau llefaru | • Hoffi bod yng nghwmni oedolion sy'n gyfarwydd iddo<br>• Hoffi gwylio oedolion am gyfnodau byr |
|  15 – 18 mis | • Gwrando ac ymateb i wybodaeth/cyfarwyddiadau syml e.e. 'Ben, gwisga dy esgidie' 'Mohammed, rho fe i Dadi' | • Deall amrywiaeth eang o eiriau unigol ac weithiau rhai ymadroddion dau air e.e. 'rho fe ' 'Gwisga esgidie'<br>• Adnabod gwrthrychau a lluniau mewn llyfrau ac yn pwyntio atynt os oes rhywun yn gofyn iddo wneud<br>• Pan fo oedolyn yn gofyn am wrthrych sydd ag enw cyfarwydd, mae'n ei roi i'r oedolyn, e.e. Cot, car, afal, llyfr | • Parhau i barablu ond mae'n defnyddio o leiaf 20 o eiriau unigol yn gywir, er efallai nad yw'r geiriau'n glir<br>• Copïo ystumiau a geiriau sy'n cael eu defnyddio gan oedolion<br>• Wrth chwarae, mae'n parablu'n barhaus ac yn defnyddio geiriau unigol<br>• Defnyddio goslef, traw ac yn amrywio uchder y llais wrth 'siarad' | • Chwarae dychmygol syml<br>• Chwarae ar ei ben ei hun, er ei fod yn hoffi bod yn agos at oedolion cyfarwydd<br>• Er ei fod yn fwy annibynnol, mae'n fwy hapus wrth ymyl oedolyn |
|  18 mis i 2 oed | • Canolbwyntio ar weithgaredd o'i ddewis ar ei ben ei hun ond mae'n ei chael yn anodd gwrando ar gyfarwyddiadau gan oedolyn<br>• Mae defnyddio enw'r plentyn yn dechrau ei helpu i wneud yr hyn y mae oedolyn yn gofyn iddo'i wneud e.e. 'Sara,byt dy frechdanau' 'Ali, gwisga dy got' | • Mae'r ddealltwriaeth o eiriau unigol yn datblygu'n gyflym yn ystod y cyfnod hwn, mae'n deall rhwng 200 a 500 gair<br>• Deall cyfarwyddiadau syml e.e. 'Cer i ôl esgidie Mami' 'Cer i ôl teganau' 'Dwed wrth Dad fod bwyd yn barod' | • Defnyddio hyd at 50 o eiriau<br>• Dechrau rhoi dau neu dri gair gyda'i gilydd<br>• Gofyn cwestiynau yn aml e.e. enwau pobl a gwrthrychau<br>• Defnyddio synau llefaru p, b, m, w | • Datblygu chwarae dychmygol gyda theganau, e.e. bwydo doli, gyrru car<br>• Teimlo'n rhwystredig pan nad yw'n gallu cyfleu ei hun, gall hyn achosi iddo strancio<br>• Copïo iaith corff oedolion gan gynnwys pwyntio, ystum ac edrychiad |
|  2 – 3 oed | • Dechrau mynegi diddordeb mewn sgyrsiau ond pethau eraill yn dwyn ei sylw<br>• Gwrando ar sgyrsiau sy'n cyfeirio ato, ond mae'n ei chael yn anodd heb gliwiau e.e. 'stopia a gwranda' | • Dod i ddeall cysyniadau syml gan gynnwys yn/ar/o dan/mawr/bach<br>• Deall brawddegau fel 'rho'r tedi yn y bocs'<br>• Deall cwestiynau syml sy'n defnyddio 'pwy' a 'beth' ond ddim 'pam'<br>• Deall stori syml pan fo lluniau ar gael i gefnogi'r stori | • Defnyddio 300 o eiriau gan gynnwys iaith ddisgrifiadol, defnydd o amser, lle a phwrpas<br>• Cysylltu pedwar neu bump gair gyda'i gilydd<br>• O bosibl yn siarad ag atal dweud pan fo'n ystyried beth i'w ddweud<br>• Gallu defnyddio rhagenwau (fi, fe, hi), geiriau lluosog ac arddodiaid (yn, ar, o dan)<br>• Cael trafferth dweud r, th, si, dd, ts, ng, ch, ll | • Cynnal sgwrs ond yn neidio o un pwnc i'r llall<br>• Ymddiddori yn yr hyn mae pobl eraill yn ei chwarae ac yn ymuno â nhw<br>• Mynegi emosiynau tuag at oedolion a chyfoedion gan ddefnyddio geiriau yn hytrach nag ystumiau yn unig |
|  3 – 4 oed | • Mwynhau gwrando ar straeon<br>• Dal yn ei chael yn anodd gwneud mwy nag un peth ar y tro, felly ddim yn gallu gwrando'n rhwydd ar siaradwr tra'n gwneud rhywbeth arall. Rhaid iddo ganolbwyntio ar y dasg a'r siaradwr ar wahân | • Deall cwestiynau neu gyfarwyddiadau ac iddynt ddwy ran e.e. 'cer i ôl dy siwmper a cher i sefyll wrth y drws'<br>• Deall cwestiynau sy'n holi 'pam'<br>• Yn nes at bedair oed, yn ymwybodol o amser mewn perthynas â'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol e.e. 'heddiw mae'n heulog, ddoe roedd hi'n bwrw glaw, tybed beth fydd y tywydd yfory?' | • Defnyddio brawddegau sy'n cynnwys pedwar i chwe gair e.e. fi eisie chwarae â'r car; beth yw hwnna?<br>• Defnyddio ffurfiau'r gorffennol a'r dyfodol<br>• O bosibl yn parhau i gael problemau gyda geiriau afreolaidd e.e dethes i, ethes i, rhedeges i<br>• Gallu cofio straeon hir ac yn mwynhau eu hadrodd ac yn hoffi canu caneuon<br>• Yn cael problem wrth dweud r , th, si, ts, ng, ch, ll | • Deall cymryd tro ynghyd â deall bod angen rhannu gydag oedolion a chyfoedion<br>• Dechrau sgyrsiau<br>• Mwynhau chwarae gyda chyfoedion<br>• Yn gallu dadlau gydag oedolion a chyfoedion os yw'n anghytuno – defnyddio geiriau yn hytrach na gweithredoedd yn unig |
|  4 – 5 oed | • Mae sgiliau canolbwyntio nawr yn fwy hyblyg – gall ddeall cyfarwyddiadau llafar sy'n berthnasol i dasg gan edrych ar y siaradwr heb roi'r gorau i'r dasg y mae'n ei wneud | • Gallu dilyn straeon syml heb luniau<br>• Deall cyfarwyddiadau sy'n cynnwys trefn amser e.e. 'yn gyntaf, wedyn, yn olaf'<br>• Yn deall ansoddeiriau e.e. 'meddal, caled, llyfn'<br>• Yn ymwybodol o hiwmor mwy cymhleth, yn chwerthin ar jôcs | • Defnyddio brawddegau sydd wedi'u ffurfio'n gywir ond mae'n bosibl y bydd rhai camgymeriadau gramadegol yn parhau o hyd e.e. wnes i chwarae gyda Ben amser cinio<br>• Oedolion a chyfoedion yn ei ddeall yn rhwydd, dim ond ychydig o broblemau llefaru er enghraifft 'th', 'r' 'll' a chyfuniadau o dair cytsain ee 'sgriblo'<br>• Yn aml yn gofyn beth yw ystyr geiriau anghyfarwydd ac o bosibl yn eu defnyddio ar hap | • Dewis ei ffrindiau ei hun<br>• Ar y cyfan yn cydweithio gyda'i ffrindiau<br>• Yn gallu cynllunio gweithgareddau ar gyfer adeiladu pethau a gweithgareddau chwarae rôl<br>• Cynnal sgyrsiau hirach a chymryd tro i sgwrsio<br>• Yn defnyddio iaith i gasglu gwybodaeth, i negodi, i drafod teimladau/syniadau ac i fynegi barn |

Cyfieithiad yw'r poster hwn. Cafodd y gwreiddiol ei gynhyrchu gan I CAN, yr elusen gyfathrebu i blant www.ican.org.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG26886